


Sgrinio am hepatitis B, HIV a sifflis

Llyfryn hawdd ei ddarllen am brofion sgrinio pan rydych
chi'n feichiog



Yn y llyfryn yma

Tudalen



Eich dewis

3



Am y profion yma

4



Hepatitis B

5



HIV

7



Sifflis

8



Canlyniadau'r prawf

9



Eich dewis

Mae gwybodaeth yn y llyfryn yma am brawf gallwch chi ei gael. Gall y prawf ddangos oes haint (*infection*) difrifol arnoch chi neu ar eich babi.

Mae haint yn gyflwr gallwch chi ei ddal oddi wrth rywun arall. Gallai'r haint ymledu ac weithiau gallwch chi drosglwyddo haint i'ch babi.

Gall y prawf ddod o hyd i broblemau gyda'ch babi cyn y geni. Efallai fydd y prawf ddim yn dod o hyd i bob problem.

Os byddwn ni'n dod o hyd i broblem yn gynnar gallwn ni roi gwybodaeth i chi neu ddweud wrthyh chi am driniaeth sydd ar gael i chi neu'ch babi.



Chi fydd yn dewis a fyddwch chi'n cael y prawf neu beidio. Os byddwch chi'n gwrthod y prawf byddwn ni'n cynnig prawf i chi eto yn hwyrach yn eich beichiogrwydd rhag ofn i chi newid eich meddwl. Gallwch chi ofyn am brawf arall yn hwyrach yn eich beichiogrwydd os ydych chi'n meddwl eich bod chi wedi dal un o'r heintiau.



Os byddwch chi'n cael y prawf byddwn ni'n gwybod pa ofal rydych chi a'ch babi ei angen. Mae croeso i chi siarad gyda'ch bydwraig neu feddyg os ydych chi'n poeni.



Am y prawf



Fyddwn ni ddim yn dangos canlyniadau'r prawf i neb heblaw am staff iechyd sydd angen eu gweld nhw.



Mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrth eich bydwraig am unrhyw broblemau iechyd sydd gennych chi.

Os ydych chi'n gwybod bod HIV neu hepatitis B arnoch chi, dywedwch wrthym.

Gallwn ni sicrhau eich bod chi'n cael y gofal rydych chi ei angen.



Mae'r prawf yn golygu tynnu ychydig iawn o'ch gwaed i ddod i wybod oes hepatitis B, HIV neu sifflis arnoch chi.



Hepatitis B




Gallwch chi ddal hepatitis B wrth gael rhyw, wrth ddefnyddio nodwyddau wedi'u heintio ac wrth ddod i gysylltiad â hylif corff rhywun arall.



Mae hylif y corff yn cynnwys pethau fel pi-pi, pŵ, cyfog (chŵd), gwaed, semen a hylifau'r wain (*vagina*).


Os oes hepatitis B arnoch chi, gallwch chi ei roi i'ch babi.



Mae hepatitis B yn effeithio ar eich afu/iau a byddwch chi'n gweld arbenigwr.


Mae'n gallu eich gwneud chi'n sâl iawn.

Os oes hepatitis B arnoch chi, bydd eich babi angen brechiadau ar ôl y geni.



Mae brechiadau hefyd yn cael eu galw'n bigiadau.

Byddan nhw'n amddiffyn eich babi rhag cael hepatitis B.



Os oes hepatitis B arnoch chi bydd eich babi angen brechiadau:

- cyn iddo fod yn ddiwrnod oed
- pan mae'n 4 wythnos oed
- pan mae'n 8 wythnos oed
- pan mae'n 12 wythnos oed
- pan mae'n 16 wythnos oed
- a phan mae'n flwydd oed.



Mae'n bwysig iawn bod eich babi cael pob un o'r brechiadau.

Mae rhai babanod angen amddiffyniad ychwanegol cyn iddyn nhw fod yn ddiwrnod oed. Rydyn ni'n rhoi brechiad arall i'r babanod yma. Mae'r brechiad yn eu hamddiffyn ac yn eu helpu i ymladd y clefyd.




HIV



Gallwch chi ddal HIV wrth gael rhyw, wrth ddefnyddio nodwyddau wedi'u heintio ac o hylif corff rhywun arall.



Os oes HIV arnoch chi, gallwch chi ei roi i'ch babi.



Mae bod â HIV yn golygu gallwch chi ddal mathau eraill o salwch difrifol yn hawdd. Bydd HIV arnoch chi am weddill eich oes.

Os oes HIV arnoch chi, gallwch chi gael moddion tra'r ydych chi'n feichiog.

Bydd y moddion yn golygu mai siawns isel iawn sydd yna y bydd eich babi'n dal HIV gennych chi.

Os oes HIV arnoch chi, rydyn ni'n eich cynghori i beidio â bwydo o'r fron.



Sifflis




Gallwch chi ddal sifflis wrth gael rhyw.

Os oes sifflis arnoch chi, gallwch chi ei roi i'ch babi.



Os oes sifflis arnoch chi, mae problemau difrifol yn gallu datblygu ar iechyd eich babi.



Os oes sifflis arnoch chi byddwch chi'n gweld arbenigwr. Bydd yr arbenigwr yn rhoi tabledi gwrthfotig i chi. Efallai bydd angen i'ch partner gael prawf hefyd.

Pan fydd eich babi'n cael ei eni, efallai bydd angen archwiliad. Efallai bydd y babi angen profion gwaed a moddion gwrthfotig hefyd.



Canlyniadau'r prawf



Bydd bydwraig yn cysylltu â chi os bydd canlyniadau'r prawf yn dangos bod unrhyw un o'r heintiau yma arnoch chi.



Os byddwch chi'n symud tŷ mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrth eich bydwraig.